



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Rheoli perfformiad i athrawon digyswllt

Trefniadau rheoli perfformiad diwygiedig 2012



Canllawiau

Dogfen ganllawiau rhif: 083/2012

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2012

Rheoli perfformiad i athrawon digyswllt

Cynulleidfa	Awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, sefydliadau o fewn y sector addysg bellach, penaethiaid, athrawon ac eraill sydd â diddordeb.
Trosolwg	Mae'r ddogfen ganllawiau hon yn amlinellu Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011 a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2012 er mwyn cryfhau trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer penaethiaid, athrawon ac athrawon digyswllt.
Camau i'w cymryd	Mae angen i bob ysgol ac awdurdod lleol fabwysiadu'r trefniadau rheoli perfformiad diwygiedig erbyn 31 Rhagfyr 2012.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Yr Is-adran Cyflawni a Safonau Ysgolion Yr Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: PracticeReviewandDevelopment@cymru.gsi.gov.uk
Copïau ychwanegol	Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau
Dogfennau cysylltiedig	Gellir parhau i ddefnyddio'r canllawiau a'r gweithdrefnau rheoli perfformiad presennol sy'n ymwneud â rheoliadau 2002 hyd nes y bydd pob ysgol ac awdurdod lleol wedi mabwysiadu'r trefniadau diwygiedig erbyn 31 Rhagfyr 2012 fan bellaf. Gellir eu gweld drwy'r ddolen ganlynol: www.cymru.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/performance-man-for-teachers?lang=cy Y rheoliadau newydd a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2012 yw Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011 Rhif 2940 (Cy.316) a gellir eu gweld drwy'r ddolen ganlynol: www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2940/contents/made/welsh

Cynnwys

Cyflwyniad	1
Polisi rheoli perfformiad	3
Penodi gwerthuswr	4
Y cylch gwerthuso	5
Cynllunio cychwynnol, pennu amcanion a gweithdrefnau monitro	6
Yr adolygiad gwerthuso a'r datganiad gwerthuso	12
Apeliadau	15
Darparu datganiadau gwerthuso, eu defnyddio a'u cadw	17
Materion perthnasol eraill	18

Cyflwyniad

Mae rheoli perfformiad yn helpu ysgolion i wella drwy gefnogi a gwella gwaith athrawon fel unigolion ac mewn timau. Mae'n gosod fframwaith i athrawon ac arweinwyr gytuno ar flaenoriaethau ac amcanion a'u hadolygu. Mae'n canolbwyntio sylw ar wneud addysgu ac arwain mwy effeithiol er budd disgyblion, athrawon ac ysgolion.

Cynlluniwyd yr arweiniad hwn i fod yn gefnogol, nid gorfodol. Mae'n ymwneud â'r gofynion a nodir yn Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011 a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r rheoliadau.

Mae'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer gwerthuso perfformiad athrawon mewn ysgolion cymunedol, gwirfoddol, sefydledig, arbennig cymunedol, sefydledig arbennig neu ysgolion meithrin a gynhelir. Nid yw'r gwerthusiad rheoli perfformiad yn rhan o unrhyw weithdrefnau disgyblu neu ddiswyddo.

Safonau proffesiynol ar gyfer ymarferwyr addysg yng Nghymru

Mae'r safonau proffesiynol yn nodi'r ddealltwriaeth, gwybodaeth a gwerthoedd sy'n rhaid i athrawon eu dangos. Mae'n rhaid i athrawon gyrraedd Safonau Athrawon wrth eu Gwaith ar ddiwedd eu cyfnod sefydlu a pharhau i'w cyrraedd gydol eu gyrfa addysgu. Maent yn darparu fframwaith i alluogi i ymarferwyr nodi eu hamcanion rheoli perfformiad a dewis y gweithgareddau datblygiad proffesiynol mwyaf priodol. Os nad yw athro yn parhau i gyrraedd y safonau hyn, dylai rheolwyr llinell ystyried gweithdrefnau cymhwysedd neu allu. Os penderfynir ymgymryd â gweithdrefn cymhwysedd neu allu, yna mae'r weithdrefn honno yn disodli trefniadau rheoli perfformiad.

Mae'r Safonau Athrawon wrth eu Gwaith ar gael yn:

www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/practitioners/?skip=1&lang=cy

Cynnwys yr arweiniad

Mae'r arweiniad hwn wedi'i rannu yn wyth adran:

1. Polisi rheoli perfformiad

Y Polisi Rheoli Perfformiad yw'r polisi ysgrifenedig sy'n nodi sut y gweithredir y broses o reoli perfformiad athrawon digyswllt.

2. Penodi gwerthuswr

Yr Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am benodi gwerthuswr ar gyfer athro digyswllt.

3. Y cylch gwerthuso

Bydd yr Awdurdod Lleol yn pennu amserlen y cylch gwerthuso ar gyfer athrawon digyswllt.

4. Cynllunio cychwynnol, pennu amcanion a gweithdrefnau monitro

Mae Rheoli perfformiad yn broses barhaus gydol y flwyddyn. Mae'n gylch parhaus sy'n cynnwys tri chynnod sef, cynllunio, monitro perfformiad ac adolygu perfformiad.

5. Yr adolygiad gwerthuso a'r datganiad gwerthuso

Mae'r adolygiad blynyddol o berfformiad yn gyfle ffurfiol i'r athro a'r gwerthuswr gydnabod cyflawniadau a thrafod meysydd i'w gwella, cymorth a datblygiad proffesiynol.

6. Apeliadau

Os na ellir datrys problemau gyda'r gwerthuswr, mae gan yr athro gyfle i apelio yn erbyn y datganiad gwerthuso.

7. Darparu datganiadau gwerthuso, eu defnyddio a'u cadw

Gofynion datgelu, cadw a defnyddio datganiadau gwerthuso.

8. Materion perthnasol eraill

Rheoli perfformiad gwan; a Chyflog a pherfformiad

Polisi rheoli perfformiad

Y Polisi Rheoli Perfformiad yw'r polisi ysgrifenedig sy'n nodi sut bydd rheoli perfformiad athrawon digyswllt yn cael ei weithredu yn unol â Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011.

Cyn llunio'r polisi, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau yr ymgynghorir â'i holl athrawon digyswllt a bod rôl undebau llafur cydnabyddedig yr athrawon yn cael ei pharchu'n llawn yn y broses. Bydd yr awdurdod lleol yn gwneud copi o'r polisi sydd ar gael i'w archwilio ar unrhyw adeg resymol gan unrhyw athro digyswllt, unrhyw unigolyn sy'n ymwneud ag archwilio'r broses o reoli perfformiad athrawon digyswllt ac unrhyw werthuswyr a benodir yn unol â'r Rheoliadau Gwerthuso.

Dylai'r polisi sefydlu fframwaith sy'n galluogi'r holl staff i gytuno ac adolygu blaenoriaethau ac amcanion, gan gynnwys eu hanghenion datblygu proffesiynol eu hunain. Bydd yn gymorth yn y gwaith o ddatblygu'r holl staff ac yn helpu i godi safonau cyflawniadau disgyblion lle bo'n briodol.

Dylid adolygu Polisi Rheoli Perfformiad a'i ddiwygio yn ôl yr angen bob blwyddyn ysgol ar ôl ymgynghori.

Penodi gwerthuswr

Bydd yr awdurdod lleol yn penodi gwerthuswr ar gyfer pob athro digyswllt. Bydd gan y gwerthuswr Statws Athro Cymwysedig.

Gall yr awdurdod lleol benodi gwerthuswr newydd yn lle gwerthuswr cyfredol ar unrhyw adeg. Dylid hysbysu'r athro digyswllt yn ysgrifenedig gan nodi pam y mae angen y cyfryw newid a dylid cynnwys y nodyn hwn gyda'r Datganiad Gwerthuso.

Dylai'r awdurdod lleol ystyried pwy sydd yn y sefyllfa orau i adolygu gwaith yr athro digyswllt a, lle bo'n briodol, pwy sydd â'r gallu i ddarparu cefnogaeth addas gydol y cylch blynyddol. Gall yr awdurdod lleol ddirprwyo rhai o ddyletswyddau'r gwerthuswr neu ei holl ddyletswyddau i athro yn yr ysgol lle mae'r athro digyswllt yn gweithio fwyaf. Dylai gwerthuswyr fod yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau rheoli perfformiad a'r polisi rheoli perfformiad.

Dylid ymgynghori â'r athro digyswllt ynglŷn â phwy ddylid ei benodi fel ei werthuswr. Dylai'r awdurdod lleol ystyried y llwyth gwaith ychwanegol y bydd hyn yn ei roi ar y gwerthuswr a darparu cymorth addas.

Y cylch gwerthuso

Bydd yr awdurdod lleol yn pennu amserlen y cylch gwerthuso ar gyfer pob athro digyswllt.

Yn achos y cylch gwerthuso cyntaf a gynhelir o dan y Rheoliadau, ar gyfer athro digyswllt sy'n gyflogedig ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym, gall yr awdurdod lleol bennu bod y cylch gwerthuso hwnnw'n para am gyfnod gwahanol i flwyddyn. Yn yr un modd, yn dilyn penodi athro digyswllt newydd, neu pe bai athro digyswllt yn symud i swydd newydd, gall yr awdurdod lleol bennu bod hyd cylch gwerthuso cyntaf yr athro digyswllt yn y swydd newydd yn llai na blwyddyn. Dylid rhoi sylw priodol i'r broses lle cynhelir cyfnod llai.

Ar ôl iddynt ddechrau, mae cylchoedd gwerthuso pob athro digyswllt yn barhaus. Bydd cylch gwerthuso yn para blwyddyn fel arfer. Ni fydd penodi gwerthuswr newydd yn golygu bod yn rhaid ail-ddechrau cylch gwerthuso athro digyswllt.

Lle cyflogir athro digyswllt ar sail contract tymor penodol o lai na blwyddyn, bydd y cylch gwerthuso yn para hyd y contract.

Cynllunio cychwynnol, pennu amcanion a gweithdrefnau monitro

Wrth reoli perfformiad, mae'r gwerthuswr a'r athro digyswllt yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau y trafodir ac y cytunir ar amcanion; ar roi adborth rheolaidd a gwrthrychol; ar ddarparu hyfforddiant a datblygiad digonol lle bo'n briodol; ac ar adolygiad blynyddol ffurfiol o berfformiad.


Mae arferion gorau wrth reoli perfformiad yn cynnwys:

- ymrwymiad i gyraeddiadau a lles disgyblion;
- gwerthfawrogi rôl hanfodol athrawon;
- ymrwymiad i berfformiad a lles staff;
- mae'n rhaid i'r athro digyswllt a'r gwerthuswr ymddiried yn ei gilydd er mwyn sicrhau gwerthusiad cadarn o gryfderau a nodi meysydd i'w datblygu;
- annog rhannu arferion da.

Y broses o reoli perfformiad

Y cylch rheoli perfformiad

Mae Rheoli Perfformiad yn broses barhaus a gyflawnir yn ystod y flwyddyn. Mae'n cylch parhaus sy'n cynnwys y tri chyfnod o gynllunio, monitro perfformiad ac adolygu perfformiad. Mae arferion gorau wrth reoli perfformiad yn cynnwys dull cydweithredol lle mae'r gwerthuswr a'r athro digyswllt yn cymryd cyfrifoldeb ar y cyd i weithredu'r broses yn effeithiol.



Cynllunio

Cyn y cyfarfod cynllunio, dylai athrawon digyswllt:

- ystyried defnyddio dulliau hunanddadansoddi a myfyrio i baratoi ar gyfer y drafodaeth â'r gwerthuswr os ydynt wedi cytuno ar amcanion penodol;
- canolbwyntio ar anghenion personol a'r hyn fydd ei angen i sicrhau bod y disgyblion yn gwneud cynnydd da;
- ystyried y dystiolaeth sydd ei hangen ac y dylid cadw adolygiad diweddar o ymarfer a chofnod datblygu.

Cyn y cyfarfod cynllunio, dylai gwerthuswyr:

- fod yn gyfarwydd â gweithdrefnau rheoli perfformiad statudol;
- bod yn gyfarwydd â pholisi rheoli perfformiad yr ysgol;
- bod yn gyfarwydd â disgrifiad swydd yr athro digyswllt;
- myfyrio ar unrhyw wybodaeth berthnasol am berfformiad disgyblion ac ystyried y blaenoriaethau sy'n berthnasol i waith yr athro digyswllt.

Paratoi amcanion

Cyn neu ar ddechrau'r cylch gwerthuso, mae'n rhaid i'r gwerthuswr a'r athro digyswllt gyfarfod i gynllunio a pharatoi ar gyfer y gwerthusiad a cheisio cytuno ar amcanion yr athro digyswllt. Fel arfer, bydd y cyfarfod yn cael ei gyfuno â'r cyfarfod adolygu gwerthusiad blynyddol (gweler tudalen 12). Mae'n bwysig bod amser digonol yn cael ei neilltuo er mwyn i'r cyfarfod drafod pob elfen o'r gwerthusiad yn llawn ac ystyried blaenoriaethau eraill yr athro digyswllt.

Dylai amcanion fod yn llawn her ond yn gyraeddadwy a dylent ystyried disgrifiad swydd a sail wybodaeth gyfredol yr athro digyswllt. Dylent ganolbwyntio ar faterion y mae gan yr athro digyswllt ddylanwad uniongyrchol neu reolaeth drostynt.

Ni ellir cael rheolau cadarn a sefydlog ar nifer yr amcanion y gellir eu pennu, ond o brofiad byddai 3 yn ddigon fel arfer.

Nid yw pennu amcanion yn golygu eitemeiddio pob gweithgaredd neu dasg. Dylid dewis disgwyliadau allweddol a blaenoriaethau datblygiadol.

Er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, argymhellir pennu amcanion sy'n:

- glir;
- cryno;
- mesuradwy;

- heriol;
- perthnasol

Pennu amcanion

Dylai amcanion yr athro digyswllt, os ydynt yn cael eu cyflawni, gyfrannu at wella cynnydd disgyblion; ac mae'n rhaid iddynt ystyried tystiolaeth berthnasol, gan gynnwys gwybodaeth am berfformiad disgyblion

Yn gyffredinol, mae'n rhaid i'r amcanion ymwneud â

- datblygu a gwella ymarfer proffesiynol yr athro digyswllt;
- disgrifiad swydd yr athro digyswllt;
- unrhyw feini prawf cynnydd cyflog perthnasol (gweler tudalen 18);
- unrhyw amcanion tîm neu ysgol gyfan perthnasol a nodir yn y Cynllun Gwella Ysgol perthnasol;
- safonau proffesiynol ar gyfer athrawon fel y'u nodir gan Weinidogion Cymru.

Gallant hefyd ystyried:

- dyheadau proffesiynol yr athro digyswllt;
- unrhyw flaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwella ysgolion a nodir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd.

Yn y cyd-destun hwn, dylid ystyried y safonau proffesiynol yn eu cyfanrwydd fel sylfaen i'r trafodaethau er mwyn helpu athrawon digyswllt i nodi meysydd cryf a meysydd i'w datblygu ymhellach, gan gadw mewn cof gyfnod cyfredol yr athro digyswllt yn ei yrfa.

Bydd y gwerthuswr yn cofnodi'r amcanion, a lle bo'n briodol, gallai fod yn ddefnyddiol eu rhestru yn nhrefn blaenoriaeth. Dylid trafod y rhain a chytuno arnynt gyda'r athro digyswllt, os yw hynny'n bosibl. Gan amlaf, bydd cytundeb ynglŷn â'r amcanion, ond os na ellir cytuno bydd yn rhaid i'r gwerthuswr nodi'n ysgrifenedig yr amcanion y mae'n eu hystyried yn briodol. Bydd yr athro digyswllt yn cael cyfle i ychwanegu sylwadau ysgrifenedig.

Yn unol â gofynion rheoleiddiol mewn mannau eraill, wrth bennu amcanion dylai gwerthuswyr sicrhau eu bod yn ystyried yr hyn y gellir ei ddisgwyl yn rhesymol gan yr athro digyswllt o ran sicrhau cydbwysedd boddhaol rhwng yr amser sy'n ofynnol i gyflawni dyletswyddau proffesiynol a'r amser sy'n ofynnol i fynd i'r afael â buddion personol y tu allan i'r gwaith.

Datblygiad proffesiynol

Mae datblygiad proffesiynol yn elfen allweddol o'r broses o reoli perfformiad ac yn gymorth i athrawon digyswllt gynyddu eu gwybodaeth a sgiliau. Os yw'n bosibl, dylid canolbwyntio ar ddatblygiad proffesiynol yn rheolaidd ac yn unol â system datblygiad proffesiynol parhaus yr ysgol.

Gall gweithgareddau amrywiol gyfrannu at ddatblygiad proffesiynol athrawon digyswllt, gan gynnwys addysgu tîm, cysgodi cydweithwyr, ymweliadau i arsylwi ar ymarfer da, darllen personol ac ymchwil, defnyddio mentoriaid neu hyfforddwyr, ysgwyddo meysydd cyfrifoldeb newydd a gweithio mewn maes newydd.

Dylai cyfleoedd datblygiad proffesiynol gefnogi amcanion cytûn, datblygu cryfderau a mynd i'r afael â meysydd ar gyfer datblygiad a thwf proffesiynol. Ar ôl pennu'r amcanion, dylai'r gwerthuswr a'r athro digyswllt geisio cytuno ar y gefnogaeth y bydd ei hangen er mwyn i'r athro digyswllt gyflawni'r amcanion. Os na ellir cytuno, bydd y gwerthuswr yn pennu'r gefnogaeth sydd ei hangen. Os yw'n bosibl, dylid ystyried cyfleoedd i rannu ymarfer da yn eang.

Mae'r cynllun unigol a'r datganiad gwerthuso yn ddogfennau personol a chyfrinachol a dylid eu cadw mewn lle diogel. Mae'n rhaid i bawb sydd â mynediad i'r dogfennau ddilyn darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998 bob adeg.

Diwygio amcanion

O dan amgylchiadau eithriadol, gall gwerthuswyr ddiwygio amcanion athrawon digyswllt ar unrhyw adeg yn ystod y cylch gwerthuso. Fel y gwnaed wrth bennu amcanion ar ddechrau'r cylch gwerthuso, dylai'r athro digyswllt a'r gwerthuswr gytuno ar unrhyw ddiwygiadau gyda'i gilydd. Fodd bynnag, os nad ydynt yn gallu cytuno, mae'n rhaid i'r gwerthuswr nodi diwygiadau y mae'n eu hystyried yn briodol yn ysgrifenedig. Bydd yr athro digyswllt yn cael cyfle i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Mae'n rhaid diweddarau'r datganiad amcanion ar ôl gwneud unrhyw ddiwygiadau er mwyn nodi'r amcan a ddiwygiwyd, y dyddiad y gwnaed y diwygiad a'r rhesymau amdano.

Gweithdrefnau monitro

Yn y cyfarfod cynllunio, yn ogystal â phennu amcanion, bydd yr athro digyswllt yn trafod a chytuno ar weithdrefnau gyda'r gwerthuswr ar gyfer monitro perfformiad yr athro digyswllt yn erbyn yr amcanion. Byddant hefyd yn trafod unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen a'r cofnod datblygu a'r adolygiad ymarfer cyfoes sy'n rhaid eu cofnodi.

Dylai gweithdrefnau monitro gynnwys dulliau amrywiol, gan gynnwys gwybodaeth o: adolygiad ymarfer a chofnod datblygu'r athro digyswllt; gwybodaeth am berfformiad disgyblion; ac unrhyw ddata perthnasol, a fydd i gyd wedi'u paratoi at ddibenion eraill fel, er enghraifft, dogfennau cynllunio'r athro digyswllt. Mae'n bwysig bod tystiolaeth briodol ddigonol yn cael ei chasglu er mwyn sicrhau bod penderfyniadau cywir yn cael eu gwneud. Derbynnir arsylwi yn yr ystafell ddosbarth fel ymarfer da ac felly mae'n ofynnol i'r gwerthuswr o leiaf arsylwi yr athro digyswllt yn addysgu ar o leiaf un

achlysur yn ystod y cylch gwerthuso. Mae'n ofynnol hefyd i'r gwerthuswr holi'r rheini sy'n adnabod yr athro digyswllt ar lefel broffesiynol am ei waith mewn lleoliadau eraill lle mae'r athro digyswllt yn gweithio'n rheolaidd.

Os na all y gwerthuswr a'r athro digyswllt gytuno ar y gweithdrefnau, y gwerthuswr fydd â'r gair terfynol a bydd yn pennu a chofnodi'r gweithdrefnau i'w defnyddio yn ysgrifenedig. Dylid rhoi cyfle i'r athro digyswllt ychwanegu sylwadau ysgrifenedig hefyd.

Bydd yr athro digyswllt a'r gwerthuswr yn parhau i adolygu cynnydd gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod yr adolygiad cynnydd yn weithredol a chydweithredol. Mae cynnal trafodaethau anffurfiol yn ystod y flwyddyn yn ffordd o adolygu cynnydd a sicrhau bod yr athrawon digyswllt yn cael eu cefnogi yn eu datblygiad proffesiynol. Gall y trafodaethau adolygu perfformiad hyn ganolbwyntio ar y cynllun unigol ac ar unrhyw gamau cefnogol sydd eu hangen a gallant hefyd helpu i ddiweddarau'r adolygiad ymarfer a'r cofnod datblygu. Bydd cyfle hefyd i addasu amcanion pan fo amgylchiadau yn newid a/neu ddata mwy diweddar ar gael. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r gwerthuswr dderbyn caniatâd yr athro digyswllt cyn ceisio cael gwybodaeth - ysgrifenedig neu lafar - sy'n berthnasol i berfformiad yr athro digyswllt gan bobl eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gweithdrefnau a gofnodir yn y cyfarfod cynllunio. Mae'r mwyafrif o athrawon digyswllt a gwerthuswyr yn cytuno ar amserlenni'r trafodaethau hyn yn y cyfarfod cynllunio ac yn eu cynnal ar yr un adeg â'r arsylwi ar addysgu.

Arsylwi ar addysgu

- dim ond person â SAC all arsylwi ar addysgu at ddiben rheoli perfformiad;
- dylid arsylwi yn ystod gwersi a gweithgareddau y cytunir arnynt ymlaen llaw ar ôl rhoi rhybudd o 5 diwrnod ysgol o leiaf;
- mae'n ofynnol i'r gwerthuswr arsylwi athrawon digyswllt o leiaf un waith y flwyddyn at ddiben rheoli perfformiad;
- gall gweithdrefnau gynnwys arsylwadau ychwanegol o sesiynau cyfan neu rannau ohonynt at ddiben rheoli perfformiad a gellir eu cyfuno lle bo'n briodol ag arsylwi ar wers at ddibenion eraill;
- mae llawer o athrawon digyswllt yn gweithio mewn ystod eang o leoliadau ac mae sawl agwedd ar eu gwaith. Gellir cydbwysu cwrdd y gwaith arsylwi i adlewyrchu'r lleoliadau ac ystod lawn rôl yr athro digyswllt. Gallai gwaith arsylwi arall o sesiynau cyfan neu ran ohonynt y cytunir eu bod yn ddefnyddiol ategu'r gwaith arsylwi dynodedig er mwyn adlewyrchu rolau a chyfrifoldebau'r athro digyswllt;
- o dan rai amgylchiadau, efallai y bydd yn briodol i berson arall â SAC yn hytrach na'r gwerthuswr gynnal y gwaith arsylwi. Bydd y person yn rhoi adroddiad i'r gwerthuswr. Dylid trafod achosion o'r fath â'r athro digyswllt ymlaen llaw;

- Mae arsylwi llwyddiannus yn gofyn am waith paratoi a hyfforddiant, a dealltwriaeth glir gan yr athro digyswllt a'r arsylwr o'i ddiben;
- Dylid penderfynu ar natur, diben a hyd yr arsylwi, ynghyd â meysydd y dylid canolbwyntio arnynt, yn y cyfarfod cynllunio. Er mwyn gwneud hyn yn ymarfer gwerth chweil, mae angen ei strwythuro mewn ffordd sy'n galluogi i arsylwr ganolbwyntio ar y meysydd y cytunwyd arnynt ymlaen llaw;
- Mae'n bwysig bod y sesiynau yr arsylwir arnynt yn cael eu cynnal mewn awyrgylch sydd mor debyg i sesiynau arferol â phosibl;
- Bydd angen i gwmpas yr addysgu a arsylwir fod yn gytbwys er mwyn adlewyrchu ystod gwaith athro digyswllt, ond nid yn ormodol;
- Mae adborth llawn, adeiladol ac amserol yn cynnig cyfle i drafod cryfderau a'r hyn y gellid ei wneud yn wahanol y tro nesaf. Wrth roi adborth, gall yr arsylwr ystyried ystod y gweithgareddau a gyflawnwyd gan yr athro digyswllt a'r amser a dreulir ar bob gweithgaredd;
- Dylid rhoi adborth cyn gynted â phosibl (o fewn 5 diwrnod ysgol fel arfer) ar ôl y sesiwn arsylwi. Fe'ch cynghorir i gytuno ar amser a lle i roi'r adborth ar yr un adeg ag y cytunir ar fanylion yr arsylwi;
- Dylid cofnodi canlyniad yr arsylwi, gan gynnwys unrhyw adborth, a dylid rhoi cyfle i'r athro digyswllt ychwanegu sylwadau ysgrifenedig.

Adolygu ymarfer a chofnod datblygu

Drwy'r cylch gwerthuso, mae'n rhaid i'r athro digyswllt gadw cofnod diweddar o:

- asesiad yr athro digyswllt ei hun o'i berfformiad yn erbyn yr amcanion a gofnodir yn y datganiad o amcanion;
- manylion unrhyw weithgareddau datblygiad proffesiynol a gyflawnwyd neu gefnogaeth arall a ddarperir a sut mae hyn yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion;
- manylion unrhyw ffactorau sy'n effeithio ar berfformiad yn erbyn yr amcanion a gofnodwyd yn ôl yr athro digyswllt.

Yr adolygiad gwerthuso a'r datganiad gwerthuso

Mae'r adolygiad blynyddol o berfformiad yn gyfle ffurfiol i'r athro digyswllt a'r gwerthuswr gydnabod cyflawniadau a thrafod meysydd i'w gwella a datblygiad proffesiynol yn ôl yr angen. Gellir cyfuno hyn â'r broses o bennu amcanion ar gyfer y cylch nesaf o reoli perfformiad. Mae'n bwysig bod digon o amser yn cael ei neilltuo yn y cyfarfod er mwyn trafod pob elfen o'r gwerthusiad yn llawn ac ystyried blaenoriaethau eraill yr athro digyswllt.

Hunanfyfyrrio

Cyn y cyfarfod adolygu, efallai y bydd yr athro digyswllt am ystyried, ar ôl ymarfer barn broffesiynol, pa feysydd i'w trafod mewn perthynas â'r cylch cyfredol ac wrth baratoi ar gyfer y cylch nesaf.

Bydd adolygiad o berfformiad yn fwy gwerthfawr ac effeithiol os yw'r athro digyswllt wedi myfyrrio ymlaen llaw ar waith y flwyddyn, ar y cryfderau a'r cyflawniadau ac ar feysydd i'w datblygu.

Dylai'r athro digyswllt ystyried perfformiad yn erbyn:

- asesiad yr athro digyswllt ei hun o'i berfformiad yn erbyn yr amcanion a bennwyd ar ddechrau'r cylch;
- asesiad yr athro digyswllt ei hun o'i berfformiad 'yn y rownd' ar ddiwedd y cylch adolygu;
- manteision unrhyw ddatblygiad proffesiynol a gyflawnwyd a manylion unrhyw gyfleoedd datblygiad proffesiynol a fyddai'n fuddiol ym marn yr athro digyswllt;
- unrhyw adolygiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn;
- unrhyw ffactorau a effeithiodd ar berfformiad yn erbyn yr amcanion a bennwyd ym marn yr athro digyswllt;
- amcanion posibl ar gyfer y cylch newydd.

Yr adolygiad perfformiad

Ar ddiwedd neu'n agos i ddiwedd y cylch gwerthuso, mae'n rhaid i'r athro digyswllt a'r gwerthuswr gynnal adolygiad gwerthuso, er mwyn:

- asesu i ba raddau y mae'r athro digyswllt wedi cyflawni'r amcanion a gofnodir yn y datganiad amcanion, gan ystyried adolygiad ymarfer a chofnod datblygiad yr athro digyswllt;
- pennu a yw'r perfformiad cyffredinol wedi bod yn llwyddiannus wrth gadarnhau bod yr athro digyswllt yn parhau i gyrraedd y safonau proffesiynol ar gyfer athrawon a nodir gan Weinidogion Cymru;

- nodi'r angen am gefnogaeth, hyfforddiant neu ddatblygiad ychwanegol a ffyrdd o ddiwallu'r cyfryw anghenion gan ystyried adolygiad ymarfer a chofnod datblygiad yr athro digyswllt.

Dylai'r adolygiad rheoli perfformiad gynnwys:

- adolygu, trafod a chadarnhau tasgau, amcanion a safonau hanfodol yr athro digyswllt;
- cydnabod cryfderau a chyflawniadau'r athro digyswllt ac ystyried ffactorau y tu hwnt i reolaeth yr athro digyswllt;
- cadarnhau'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt gyda'r athro digyswllt mewn adolygiadau anffurfiol yn ystod y flwyddyn;
- nodi meysydd i'w datblygu a sut bydd y rhain yn cael eu cyflawni;
- cydnabod anghenion datblygiad proffesiynol;
- os yw'n cael ei gyfuno â'r cyfarfod cynllunio, cytuno ar amcanion clir a chwblhau cynllun unigol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Y gwerthuswr fydd yn penderfynu pryd y bydd yr adolygiad gwerthuso yn cael ei gynnal, ond bydd yn rhaid rhoi o leiaf 10 diwrnod ysgol o rybudd (ysgrifenedig) i'r athro digyswllt o'r dyddiad hwnnw. O leiaf bum niwrnod ysgol cyn yr adolygiad gwerthuso, mae'n rhaid i'r athro digyswllt gyflwyno'r adolygiad ymarfer a'r cofnod datblygu i'r gwerthuswr ac mae'n rhaid ystyried y rhain yn yr adolygiad.

Mae'n rhaid i athrawon gyrraedd y Safonau Athrawon wrth eu Gwaith ar ddiwedd y cyfnod sefydlu a pharhau i'w cyrraedd gydol eu gyrfaedd addysgu. Dylai'r gwerthuswr ddefnyddio'r fframwaith y mae'r Safonau yn eu darparu fel sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau proffesiynol am effeithiolrwydd cyffredinol perfformiad athro digyswllt o ran dangos eu bod yn parhau i gyrraedd y safonau. Dylai'r gwerthuswr hefyd gadw mewn cof gyfnod cyfredol yr athro digyswllt yn ei yrfa.

Gallai fod yn ddefnyddiol i werthuswyr amlygu'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod yr adolygiad a thrafod gyda'r athro digyswllt yr hyn y bydd yn ei gynnwys yn y datganiad gwerthuso ysgrifenedig.

Y datganiad gwerthuso

O fewn 10 diwrnod ysgol i bob adolygiad gwerthuso, rhaid i'r gwerthuswr baratoi datganiad ysgrifenedig i'r athro digyswllt yn cofnodi'r prif bwyntiau a wnaed gan y gwerthuswr a'r athro digyswllt yn yr adolygiad a'r casgliadau y daethpwyd iddynt. Gall y datganiad fod yn gryno ond dylai roi sylfaen gadarn ar gyfer adolygu yn y dyfodol a chynllunio'r cylch nesaf.

Dylid cofnodi mewn atodiad i'r datganiad (a fydd yn rhan o'r datganiad) yr anghenion hyfforddiant a datblygu a ffyrdd o ddiwallu'r cyfryw anghenion a nodwyd yn yr adolygiad.

Mae profiad yn awgrymu y dylai'r gwerthuswyr hefyd geisio cytuno ar eiriad y datganiad terfynol gyda'r athro digyswllt yn ystod y cyfnod 10 diwrnod hwn.

O fewn 10 diwrnod ysgol i dderbyn copi o'r datganiad gwerthuso terfynol, gall yr athro digyswllt ychwanegu sylwadau ysgrifenedig a bydd y rhain yn rhan o'r datganiad.

Lle nad yr awdurdod lleol yw'r gwerthuswr, yna rhaid i'r gwerthuswr anfon copi o'r datganiad i'r awdurdod lleol ac at bennaeth unrhyw ysgol lle mae'r athro digyswllt yn gweithio'n rheolaidd.

Lle bo awdurdod lleol yn gweithredu fel gwerthuswr, rhaid iddo anfon copi o'r datganiad at bennaeth unrhyw ysgol lle mae'r athro digyswllt yn gweithio'n rheolaidd.

Mae'r cynllun unigol a'r datganiad gwerthuso yn ddogfennau personol a chyfrinachol a dylid eu cadw mewn lle diogel. Mae'n rhaid i bawb sydd â mynediad i'r dogfennau ddilyn darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998 bob adeg.

Apeliadau

Os na ellir datrys materion gyda'r gwerthuswr, gall yr athro digyswllt gofnodi ei anfodlonrwydd â'r gwerthusiad ar y datganiad gwerthuso. Fodd bynnag, mae gan yr athro digyswllt y cyfle hefyd i apelio yn erbyn y datganiad gwerthuso os yw'r athro digyswllt yn anfodlon ag elfennau o'r gwerthusiad.

Lle bo awdurdod lleol yn gweithredu fel gwerthuswr, mae'n rhaid i'r athro digyswllt apelio yn ysgrifenedig at yr awdurdod lleol yn unol â'r gweithdrefnau apelio sy'n berthnasol i staff, a hynny o fewn 10 diwrnod ysgol i dderbyn y datganiad.

Lle bo'r gwerthuswr yn athro mewn ysgol, rhaid gwneud apêl yn erbyn datganiad gwerthuso o fewn 10 diwrnod ysgol i dderbyn y datganiad a rhaid cyflwyno apêl ysgrifenedig i'r corff llywodraethu.

Yna, bydd swyddog apêl yn cael ei benodi i gynnal adolygiad apêl. Os bydd apêl gan athro digyswllt, fel arfer y pennaeth fydd y swyddog apêl, heblaw bod y pennaeth wedi cymryd rhan yn y cyfryw adolygiad. Dan yr amgylchiadau hynny, Cadeirydd y Llywodraethwyr fydd y swyddog apêl. Mewn sefyllfa fel hyn, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol benodi cynrychiolydd i gynorthwyo'r swyddog apêl.

Dylai'r pennaeth ddarparu copi o'r datganiad gwerthuso a'r datganiad amcanion i'r swyddog apêl ac i unrhyw un a benodir i gynorthwyo'r swyddog apêl o fewn 5 diwrnod ysgol i dderbyn yr hysbysiad o apêl.

Cynhelir yr adolygiad apêl o fewn 10 diwrnod ysgol i'r swyddog apêl dderbyn y datganiad gwerthuso.

Wrth gynnal adolygiad apêl, mae'n rhaid i'r swyddog neu swyddogion apêl ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan yr athro digyswllt.

Ar ôl rhoi ystyriaeth briodol, gall y swyddog apêl:

- benderfynu bod y gwerthusiad wedi'i gynnal yn foddhaol (a gall wneud sylwadau);
- diwygio'r datganiad gwerthuso os yw'r gwerthuswr yn cytuno;
- gorchymyn cynnal adolygiad newydd.

Os gorchmynnir gwerthusiad newydd, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol benodi gwerthuswr newydd ac mae'n rhaid i'r swyddog apêl benderfynu pa weithdrefnau apêl sy'n rhaid eu cynnal eilwaith.

Os yw'n ymddangos i'r swyddog apêl nad oes gwerthuswr newydd addas y gellir ei benodi, mae'n rhaid i'r swyddog apêl benodi aelod o gorff llywodraethu'r ysgol fel gwerthuswr newydd ar gyfer yr athro digyswllt, neu rywun arall sy'n addas i reoli ac adolygu perfformiad yr athro digyswllt. Fodd bynnag, o dan yr amgylchiadau hyn, ni ellir penodi llywodraethwr sy'n athro neu aelod arall o staff yr ysgol.

Mae'n rhaid cwblhau'r holl weithdrefnau gwerthuso sydd angen eu cynnal eilwaith o fewn 15 diwrnod ysgol. Dylid nodi mai dim ond person â SAC all arsylwi ar athro at ddiben rheoli perfformiad, yn unol â'r cyngor a nodwyd yn rhywle arall yn yr arweiniad hwn.

Ni all y swyddog apêl:

- benderfynu bod amcanion newydd yn cael eu cytuno neu eu pennu ;
- penderfynu bod yr amcanion y cytunir arnynt neu a bennwyd yn cael eu diwygio.

Darparu datganiadau gwerthuso, eu defnyddio a'u cadw

Mae'n rhaid i'r gwerthuswr roi copi o'r datganiad gwerthuso i:

- bennaeth pob ysgol lle mae'r athro digyswllt yn gweithio'n rheolaidd;
- yr awdurdod lleol

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi copi o'r datganiad gwerthuso ar gais i:

- y gwerthuswr;
- unrhyw swyddog apêl o fewn pum diwrnod ysgol i'r awdurdod lleol dderbyn hysbysiad o apêl;
- Prif Swyddog Addysg neu unrhyw swyddog neu gynghorydd a ddynodir yn benodol gan y Prif Swyddog Addysg i fod yn gyfrifol am gynghori ynghylch dyrchafu athrawon digyswllt neu ynghylch arfer unrhyw ddisgresiwn mewn perthynas â thâl neu am wneud penderfyniadau mewn perthynas â hynny.

Os yw'r athro digyswllt yn gymwys i dderbyn datblygiad cyflog o dan Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol, rhaid i'r gwerthuswr roi argymhelliad ynghylch datblygiad cyflog i'r awdurdod lleol, yn unol â datganiad gwerthuso'r athro digyswllt ac yn unol â darpariaethau'r Ddogfen.

Mae'n rhaid i'r pennaeth ddarparu copi o'r atodiad i'r datganiad gwerthuso i'r person neu bobl sy'n gyfrifol am gynllunio'r hyfforddiant a datblygiad athrawon digyswllt yn yr ysgol.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod datganiad amcanion cyfredol yr athro digyswllt ar gael i'r gwerthuswr newydd a benodir, ac eithrio ar ddechrau cylch gwerthuso.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gadw datganiad gwerthuso athro digyswllt mewn lle diogel am o leiaf dair blynedd ar ôl terfynu'r datganiad gwerthuso nesaf.

Materion perthnasol eraill

Rheoli tangyflawni

Nid yw'r gwerthusiad rheoli perfformiad yn rhan o unrhyw weithdrefnau disgyblu neu ddiswyddo. Fodd bynnag, bydd rheoli da, gyda disgwyliadau clir a chefnogaeth briodol yn gymorth mawr i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion mewn perfformiad.

Mae gweithdrefnau i fynd i'r afael â thangyflawni yn amodol ar reoliadau ar wahân. Nid yw'r cyfarfod adolygu a'r datganiad gwerthuso yn rhan o weithdrefnau ffurfiol ar gyfer disgyblu, cymhwysedd neu allu, ond mae unrhyw wybodaeth berthnasol o ddatganiadau gwerthuso yn gallu cael ei hystyried gan y rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar berfformiad, cyflog, dyrchafu, diswyddo neu faterion disgyblu sy'n digwydd yn sgil gweithdrefnau eraill.

Os gwneir penderfyniad i ddilyn gweithdrefn cymhwysedd neu allu ffurfiol, bydd y weithdrefn honno yn disodli trefniadau rheoli perfformiad. Gellir gohirio'r broses rheoli perfformiad ar unrhyw adeg yn ystod y cylch os gwneir penderfyniad o'r fath.

Cyflog a pherfformiad

Mae'r cyfrifoldeb am reoli perfformiad athrawon wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Nid yw'r cyfrifoldeb am gyflog athrawon wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru a'r Adran Addysg sy'n parhau i fod yn gyfrifol am benderfyniadau sy'n ymwneud â chyflogau yng Nghymru a Lloegr.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi diwygio'r rheoliadau rheoli perfformiad er mwyn effeithio ar gyflog athrawon unrhyw ffordd neu'r llall. Mae'r system rheoli perfformiad yn bennaf ar gyfer darparu gweithdrefn glir ar gyfer asesu perfformiad athrawon digyswllt mewn perthynas â'r amcanion y cytunwyd arnynt; a dylai helpu athrawon digyswllt i wella'u heffeithiolrwydd a sicrhau bod anghenion datblygu proffesiynol yn cael eu nodi a bod camau'n cael eu cymryd i'w diwallu yn gyson ac yn rheolaidd.

Mae cyfrifoldeb am gyflog athrawon digyswllt yn cynnwys trefniadau trothwy cyflog a dilyniant drwy'r uwch raddfa gyflog. Mae'r polisi ar gyfer yr holl faterion cyflog yn cael ei lunio drwy ddeddfwriaeth gyflog gan yr Adran Addysg. Nodir y gofynion ar gyfer cyflogau athrawon digyswllt yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol. Mae angen i gyrff perthnasol ddilyn y gofynion hyn ac unrhyw ganllawiau dilynol gan yr Adran Addysg mewn unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â chyflog, gan gynnwys dilyniant cyflog ar yr uwch raddfa gyflog.